

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.10.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Presenno!: Geraint Edwards (Cadeirydd), Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, John Griffiths, Louise Hughes (Cyngorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau**: Dylan Thomas.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol**: Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **13.09.17** fel rhai cywir.
Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.09.17)**:
 - a) **Aelod Newydd**: rhoddwyd croeso cynnes i John Griffiths ar gael ei gyfethol i'r sedd wag achlysurol. Derbyniodd John gopi o Còd Ymddygiad y Cyngor Cymuned, ac fe arwyddodd "Datganiad Derbyn Swydd".
 - b) **Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd**: dim cadarnhad hyd yma fod yr arian sydd ar ôl yn gronfa'r "Clwb Ieuenctid Llwyngwrl" i gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned (i'w wario ar offer i'r cae chwarae). Sion Bryn, Swyddog Gwasanaeth Ieuenctid, wedi gaddo rhoi ateb cadarnhaol ynglŷn â hyn yn fuan.
Penderfyniad → Geraint Edwards wedi cynnig cysylltu hefo Sion Bryn eto.
 - c) **Probleu Parcio Ceir yn Llwyngwrl**: Swyddogion Gorfodaeth Parcio, Cyngor Gwynedd, wedi cynnig gwneud ymweliad safle i'r maes parcio gyferbyn a'r Ganolfan. Geraint Edwards and Huw Davies yn cynnig cwrrdd nhw yno.
Penderfyniad → trefnu hyn erbyn Dydd Mercher 18.10.17.
 - d) **Materion Cymunedol Cyngor Gwynedd**:

Cadarnhad wedi ei dderbyn fod ein hymholiadau wedi eu cyfeirio at sylw'r adrannau perthnasol -

 - **Polyn y bin baw cwn**, ger croesfan Y Perthi, wedi pydru → rhif cais = 1-178213240
 - **Golau stryd** - (ger y bont yn Llwyngwrl) → wedi cael ei drwsio
 - **Gwrych yn gorchuddio'r arwydd ger yr Eglwys** → rhif cais 1-178213415.
5. **Gohebiaeth**:

Cyngor Gwynedd

 - a) **Llywodraethwyr Cymunedol Ysgolion Gwynedd** - llythyr gan Swyddog Addysg Ardal Gynorthwyol, yn gofyn i'r Cyngor Cymuned enwebu un aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Lywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn, am y pedair blynedd nesaf.
Penderfyniad → David Griffiths wedi ei enwebu ar Lywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn.
 - b) **Rhaglen Waith Mis Hydref** - wedi ei dderbyn.
 - c) **Swyddog Datblygu Cyngor Gwynedd** - wedi anfon pecyn gwybodaeth ar gynllun "**hunaniaith**" – cynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau yn yr ardal.
 - d) **Age Cymru (Dolgellau)** - wedi cysylltu i ofyn am wybodaeth ynglŷn â grwpiau gwirfoddol yn Llwyngwrl.
 - e) **Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref** - gwybodaeth wedi ei dderbyn fod Panel Adolygu Annibynnol wedi ei sefydlu i ystyried rôl Cyngorau Cymuned a Thref yn y dyfodol -
Penderfyniad → anfon barn o safbwynt aelodau'r Cyngor Cymuned i'r Panel.
 - f) **Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian** – manylion y cyfarfod nesaf, ar y **10.11.17**, a thaflen i nodi'r materion hynny hoffai'r Cyngor Cymuned iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod, un a'i gan Network Rail, Trenau Arriva Cymru, neu'r Pwyllgor yn gyffredinol -
Penderfyniad → llenwi'r daflen i mewn a gadael iddynt wybod fod y ddau fater a godwyd yn y cyfarfod diwethaf - 03.03.17 yn dal i barhau, ag heb eu datrys sef :
 1. Diffyg goleuadau ym maes parcio Gorsaf Trên, Llwyngwrl,
 2. Rhwystrau diogelwch / wal derfyn - Priffordd (A493) rhwng Llwyngwrl a Friog.

6. Materion Cynllunio:

- a) **Rhif Cais: NP5/69/L247D - Tŷ Cerrig, Rhoslefain** - Dymchwel y penty presennol a chodi estyniad un llawr
→ dim sylwadau na gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- b) **Rhif Cais: NP5/69/394B – Wendy's, Llwyngwril** – Creu lle parcio
→ dim sylwadau na gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- c) **Rhif Cais: NP5/69/T231B - Beudy Bach Llwyn Du, Llwyngwril** - trosi beudy yn dy annedd a chodi estyniad un llawr
→ dim sylwadau na gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
Geraint Edwards wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen addas, ag heb gymerid rhan yn y drafodaeth nag y penderfyniad yma.
- d) **Roger Parry & Partners** – ymgynghoriad blaen-gais i godi sied fawr ieir ger Castell Mawr, Llanegryn –
Penderfyniad → gofyn iddynt anfon y cynlluniau a'r gwybodaeth perthnasol drwy'r post, erbyn y cyfarfod nesaf, cyn i'r aelodau allu cyflwyno eu sylwadau.

7. Adroddiad Ariannol: Derbyniwyd Adroddiad Mis Medi 2017 yn gywir.

Cynnig – Kevin Goodchild **Eilio** – Geraint Micah **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- a) Anfoneb gan Swyddfa Archwilio Cymru – am archwilio'r cyfrifon 2016/17 = £159.45.
- b) Anfoneb gan "SignCreation" Dolgellau, am yr arwydd i'r Hysbysfwrdd = £15.00.
- c) Cyflog a Chosta'r Clerc = £1,127.50
- d) PAYE – HMRC = £185.50
- e) Derbynneb gan Gyngor Gwynedd - costau etholiad Mis Mai 2017 = £137.00.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

- Adroddodd Keith Carroll ei fod wedi mynychu Cyfarfod Blynyddol Y Ganolfan.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

Adroddodd Louise Hughes ei bod wedi derbyn ambell gwyn yn ddiweddar gan bobl sydd berchen ail dy yn yr ardal – treth cyngor wedi codi 50% ar yr ail dy.

10. Unrhyw Fater Arall:

- a) **"Wreath"** – adroddodd Ian Williams fod Mr L Jones wedi archebu "wreath" erbyn Gwasanaeth Sul y Cofio.
- b) **Gwasanaeth yr Eglwys Llwyngwril** - Keith Carroll wedi cynnig gosod y "Wreath" - Dydd Sul 12.11.17.
- c) **Wal o amgylch y Cof Golofn** – Keith Carroll yn mynd i drwsio'r wal cyn 12.11.17.
- d) **Coed Nadolig** - archebu un goeden gan Emlyn Roberts i Llwyngwril.
Geraint Micah wedi cynnig cael pris, erbyn y cyfarfod nesaf, am goeden i Roslefain.
- e) **Goleuadau Nadolig** – archebu goleuadau LED (4 x box) ar gyfer un goeden eleni.
- f) **Gwaith Trydanol** – gofyn i Geraint Williams wneud y gwaith yma eto eleni.
- g) **Arwydd Fflachio yn Llwyngwril** (ger yr hen ysgol) – Cyngor Gwynedd yn dal heb dynnu'r arwydd yma i lawr
Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt gadarnhau pryd fydd y gwaith yma yn cael ei wneud, gan fod dim pwrpas cael arwydd yna bellach.
- h) **Llwybrau Cyhoeddus** - adroddodd Geraint Micah fod rhywun wedi dympio llwyth mawr o gerrig ar y llwybr cyhoeddus rhwng Castell Mawr a Llidiart y Gwynt, Rhoslefain
Penderfyniad → cysylltu â Liz Haynes, Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o hyn.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 08.11.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad